Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Chwefror 2017

Amser: 13.15 – 16.23

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3912

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Neil McEvoy AC Rhianon Passmore AC Lee Waters AC
Tystion:	Nicola Evans, Cartrefi Cymoedd Merthyr Steve Jones, Tai Ceredigion Derek Lassetter, Tai Ceredigion Michael Owen, Cartrefi Cymoedd Merthyr Helen White, y Bwrdd Rheoleiddio ar gyfer Cymru Mike Wiseman, Panel Ymgynghorol Tenantiaid
Swyddfa Archwilio Cymru:	Huw Vaughan Thomas – Archwilydd Cyffredinol Cymru Nick Selwyn – Swyddfa Archwilio Cymru Gabrielle Smith – Swyddfa Archwilio Cymru
Staff y Pwyllgor:	

	Fay Bowen (Clerc) Meriel Singleton (Ail Glerc) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) Jonathan Baxter (Ymchwilydd) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)

Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i'r cyfarfod.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
1.3 Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad i egluro pwynt ar gyfer y cofnod, o gwestiwn a gyfeiriwyd at bobl yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 13 Chwefror.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Cywiriad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

3 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad ar Graffu ar Gyfrifon 2015-16 a chytunwyd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2017.

4 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 9

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Helen White, Cadeirydd, Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a Mike Wiseman, Cyn Gadeirydd, y Panel Cynghori Tenantiaid ac aelod o'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio a'r Grŵp *Making it Happen*, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai Cymru.

5 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 10

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Steve Jones, Prif Weithredwr a Derek Lassetter, Cadeirydd Tai Ceredigion, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai.

6 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 11

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Michael Owen, Prif Weithredwr a Nicola Evans, Cadeirydd Cartrefi Cymoedd Merthyr, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai Cymru.

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

8 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft, a chytunodd arno yn amodol ar fân newidiadau.